

BMC CYMRU



CYFARFOD NESAF: 3YDD MAWRTH 8PM

Y Faenol, Nant Peris – Bwyd am Ddim – Croeso i Baw


Dyddiadau i'w Cofio

- Ebrill 18fed/19eg, Sad/Sul, Gŵyl Tremadog.
- Ebrill 25/26ain, Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol BMC a Fforwm Agored Cenedlaethol, Plas y Brenin.
- Mehefin 9fed, Nos Fawrth, BMC Cymru Gwesty'r Castell, Deganwy am 9.00 pm.
- Medi 1af, Nos Fawrth, BMC Cymru, 8.00 pm, Y Faenol, Nant Peris.
- Tachwedd 28/29ain, Sad/Sul, Diwrnod Hwyl BMC Cymru.

Craig y Forwyn

Y newyddion mawr y gaeaf hwn yw bod Craig y Forwyn wedi ailagor. Cafwyd mân draf-ferthion ar y cychwyn mae'n wir ond mae hynny'n anorfod ar ôl i glogwyn fod ar gau am ugain

mlynedd. Felly cofiwch mor bwysig yw parchu cod y clogwyni sydd gan BMC ac yn arbennig y canllawiau canlynol:



- Peidiwch â dringo'r darn canol rhwng Staircase Gully a Purple Haze hyd nes yr hysbysir ymhellach am hynny.
- Cadwch yn ddistaw – mae sŵn yn cario'n hawdd yn y dyffryn hwn.
- Ewch i'r tŷ bach cyn mynd ar y clogwyn (neu ei gladdu o leiaf - mae'r tiffeddianwyr yn

casglu coed tân o'r coetir ger y clogwyn).

- Peidiwch â pharcio yn unman ond yn y man a ddynodwyd ar gyfer parcio. Ar hyn o bryd mae trefn ar y safle parcio ond mae angen ei fonitro. Er mwyn lleihau'r nifer o gerbydau sydd yno gallech barcio yn y Chwarel ger Gwesty'r Castell a rhannu ceir. Byddai'n well peidio â pharcio ym mhen uchaf y lôn (ar y tir glas), rhag codi gwrychyn y trigolion.
- Mae wyneb y clogwyn yn rhydd, gyda dringfeydd traddodiadol, felly gwisgwch helmed. Nid yw'n addas i grwpiau mawr o bobl ddibrofiad na rhai heb brofiad o ddringo traddodiadol.

- Cadwch y garddio'n syml; dim offer trydan.
- Dod i lawr: mae rhai mannau i abseilio a Staircase Gully neu'r ochr chwith.
- Ni fyddai'n addas ar hyn o bryd i newid y bolltau presennol oherwydd byddai'n creu gormod o sŵn. Dylid newid offer arhosol am yr un math o beth, fesul dringfa ac efallai na fydd angen offer arhosol ar rai dringfeydd. Dylech ddefnyddio rhaffau (tat) o liwiau niwtral.
- Nid oes modd cael mynediad i'r clogwyn o'r gwaelod.
- Cewch y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf ar www.northwaleslimestone.wetpaint.com a chewch ychwanegu gwybodaeth os mynnwch.

Newyddion o'r De

Cynhaliwyd sesiwn llwyddianus i lanhau clogwyn Trebanog ar y 30ain Tachwedd.

"Mi ddyweda i wrthyich chi i gyd mor wych oedd y gwaith adfer yn Nhrebanog – gwych iawn!

Fi oedd y cyntaf i gyrraedd a doeddwn i ddim yn siŵr am beth roeddwn i'n chwilio, felly mi es heibio'r clogwyn. Pan es heibio'r eildro roeddwn yn nes ati ac ar hynny fe gyrhaeddodd Dafydd, Rachael, Chris ac eraill.

Mae o'n glogwyn bach hyfryd! Roedd hi'n braf a chawsom amser da yn yr haul, a mwynhau llond bol o gacennau (6 gwahanol fath). Rydym wedi glanhau'r clogwyn i gyd ac erbyn hyn mae'n llawn haeddu eich sylw os byddwch yn yr ardal. Mae'r dringfeydd sbort yn edrych yn anodd ond gosodwyd bolltau arnynt yn ddiweddar.

Erbyn diwedd y dydd roedd 17 o bobl wedi dod ynghyd, i fwyn-

hau'r cacenni, glanhau'r dringfeydd, clirio sbwriel a thorri mieri. Yna aethom i gyd i'r Castell Mynach am bryd iawn o fwyd, diolch i'r BMC. Roedd y cacenni eog a'r cig oen Cymreig yn hyfryd."

Martin Kocsis

Bolltau a SWAG

Mae clogwyni De Cymru wedi cael cyfarpar newydd yn sgil ymdrech ar y cyd rhwng Grŵp Gweithredu De Cymru (SWAG), Clwb Mynydda De Cymru ac aelodau Cronfa Bolltau De Cymru. Y diweddaraf i gael sylw yw Rams Tor ar Benrhyn Gŵyr dan arweiniad Adrian Berry. Mae Llanbradach, Aberpennar, Navigation, Coed Elai, Witches Point, Trebanog a Dwyrain Watch House wedi cael cryn lawer o gyfarpar newydd a gwnaed llawer o waith i adfer y clogwyni. Gwaith tîm fu hyn gan y grwpiau a enwyd uchod a phobl megis John Bullock, Danny (Watch House) ac Andy Sharp.

Rydym yn ffodus fod cymaint o waith yn cael ei wneud gan grwpiau ar y cyd ac mae Cronfa Bolltau De Cymru'n gobeithio helpu gyda rhywfaint o gostau'r gwaith o adfer clogwyni sbort. Byddwn yn prynu bolltau'n fuan ac mae croeso i bob mewnbwn i'r wefan

(www.southwalesboltfund.co.uk) am glogwyni neu ddringfeydd sydd angen sylw. Mae angen cymorth hefyd i wneud y gwaith o osod yr offer a brynir gydag arian y gronfa folltau.

Os oes gennych hoff glogwyn neu ddringfa ac os oes angen gwaith arno anfonwch e-bost, dewch i nôl y bolltau ac ewch ati (yn amodol ar gael eich asesu i sicrhau eich bod yn debygol o wneud gwaith iawn).

Roy Thomas

Mae SWAG yn dal i ddangos nad oes dim tebyg i gymryd rhan a gwneud cyfraniad. Yn 2008 chwyddodd y tîm o 35 i 60, a gwnaeth aelodau SWAG ddwywaith gymaint o ddyddiau gwaith ag a wnaed yn 2007. Mae cymdeithas gyfeillgar yn datblygu yn sgil parodrwydd dringwyr lleol i gymryd rhan, a pharodrwydd busnesau fel Dynamic Rock ac Up & Under yn Abertawe, a Boulders yng Nghaerdydd i gefnogi.



Mae clybiau lleol, Clwb Mynydda De Cymru a Chlwb Mynydda Gwent yn benodol, wedi bod allan yn llu ac mae pawb wedi dangos nad oes arnynt ofn gwaith caled a'u bod yn mwynhau'r te a'r cacenni a roddir gan BMC.

Gwaith adfer clogwyni oedd y gwaith mwyaf a threuliwyd pum niwrnod yn gwneud hynny yn ystod y flwyddyn. Mae Cronfa Bolltau De Cymru'n rym effeithiol iawn bellach dan ofal Myles Jordan, Roy Thomas a Stuart Llewellyn. Yn ystod 2008 gwneir mwy o waith gyda chymorth y Gronfa Bolltau, mwy o waith adfer clogwyni a chynhelir Gŵyl Ddring Gŵyr.

Bydd yr enwog Gary Gibson yn helpu i gychwyn y tymor drwy gyflwyno ei sioe glyweled "Obsession" yn Boulders, Caerdydd ddydd Gwener 20fed Mawrth am 7pm. Mae'n bur debyg y bydd Cyngor Mynydda Prydain yn talu am ddewis helaeth o luniaeth ysgafn a bydd croeso cynnes i bawb. Gwylwch y cyfryngau sydd yn ymwneud â dringo, a'ch blwch derbyn ebost, am fwy o wybodaeth.
Martin Kocsis

Newyddion o Sir Benfro

Rydym wedi llwyddo i gael ychydig o bolion belai i Range West, er mor annhebygol yr edrychais hynny flwyddyn neu ddwy yn ôl. Erbyn hyn mae polion yn Linney Head uwchlaw'r 'Dambusters', 'Gold Mine' a 'Bird on a Wire'.

Rydym yn aros am lwyth arall o bolion a archebwyd gan BMC ar gyfer Linney Head, Cabin Door, Canol Mynydd Seion, Greenham Common a Perimeter Bays. Mae'r diolch am hyn i Lynne Ferrand a thîm EOD y fyddin a fu'n ddigon caredig i chwilio ar bob safle am hen fagnelau a marcio manau diogel ar gyfer y polion. Byddaf hefyd yn rhoi polion newydd yn y Bont Werdd yn ystod yr wythnosau nesaf.

Bydd Arweinlyfr Penfro y tro nesaf yn cynnwys 'Canllawiau Gwyrdd' gyda nodiadau ar gadwraeth a chod arferion da yn y tu blaen (fel sydd yn un Gorllewin Cernyw) a gynhyrchir gan Steve Quinton, Lynne Ferrand, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill.

Mae Clwb Mynydda Penfro'n llwyddiannus iawn ac yn gorfod gwrthod pobl. Mae rhai o'r ysgolion lleol hefyd yn rhedeg clwb dringo dan y cynllun 5x60. Mae hynny'n newydd da iawn ac yn

golygu y gwelir cynnydd yn lleol yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Cyngor Cenedlaethol 29ain Tachwedd Plas y Brenin

Dyma gyfarfod hwyaf y flwyddyn a'r un pan mae deg pwyllgor arbenigol Cyngor Mynydda Prydain yn adrodd i'r Cyngor Cenedlaethol am eu gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol ac yn amlinellu eu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Maent yn gwneud gwaith gwych ar y cyfan, fel grwpiau o wirfoddolwyr ymroddedig, llawer wedi eu dewis yn benodol, sydd yn derbyn cymorth gan swyddogion amser llawn Cyngor Mynydda Prydain.

Dyma'r deg grŵp: Mynediad, Waliau Dringo, Cystadlaethau, Cyfle Cyfartal, Cyllid, Arweinlyfrau, Cabannau, Rhyngwladol, Technegol a Hyfforddi ac Ieuenctid.

Mae cynrychiolaeth dda o Gymru ar bob pwyllgor sydd yn ymwneud yn benodol â materion sydd yn cyffwrdd â buddiannau Cymru. Hoffwn gyflwyno i chi fanylion am yr holl waith a wnânt a phwy yw pwy ond byddai'n mynd â gormod o le! Cewch wybodaeth, serch hynny, drwy ddilyn y dolennau sydd ar dudalen hafan www.thebmc.co.uk. Mae croeso i chi gyflwyno cwestiynau neu ymholiadau yn y cyfarfod nesaf o BMC Cymru. Os na fedrwcch fod yn bresennol anfonwch y cwestiynau at bmccymruwales@live.co.uk.

Yn y prif gyfarfod clywsom y byddai tanysgriadau Cyngor Mynydda Prydain yn cael eu rhewi yn 2010, ac nid yw hynny'n afresymol o gofio bod genym ar hyn o bryd warged o gannoedd o bunnoedd. Awgrymir enw Rab Carrington i fod

yn llywydd y tro nesaf ac Audrey Segay yn un o'r is-lywyddion.

Mewn adolygiad o aelodau a sylwedyddion ar y Cyngor Cenedlaethol, terfynwyd aelodau cyfetholedig ac ychwanegir sylwedydd newydd o Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru. Bydd Gweithgor y Clwb yn parhau â'i waith yn ystod 2009. Mae'n ceisio helpu clybiau i ddygymod â chyfansoddiad



newydd Cyngor Mynydda Prydain, sef bod holl aelodau'r clybiau bellach yn aelodau o Gyngor Mynydda Prydain yn hytrach na'r clybiau eu hunain.

Gohiriwyd adroddiad y National Source Group ar hyfforddi dringo tan y cyfarfod nesaf gan fod yr amser yn brin. Gohiriwyd hefyd yr eitem gan Swyddog Cymru (mwy mewn man arall). Mae'r Ymddiriedolaeth Treftadaeth Mynydda'n cael ei gefnogi'n ariannol i sefydlu dolen â Phrifysgol Cumbria yn Amble-side lle mae cyfleusterau storio ar gyfer archifau'r Ymddiriedolaeth Treftadaeth Mynydda am rent enwol yn unig.

Hillwalking yn Gymraeg

Bydd y BMC yn talu am ei gyfieithu, sef oddeutu chwarter y gost o gynhyrchu'r llyfr. Mae Clwb Mynydda Cymru wedi bod yn gefnogol iawn i'r prosiect hwn a bydd yn cyfrannu cryn lawer o arian, ac felly hefyd Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru a'r Ymddiriedolaeth Hyfforddi Mynydda. Mae MLT

Publications ar hyn o bryd yn ceisio canfod cyfieithwyr.

Mae'r rhagolygon ar gyfer y prosiect hwn yn dda iawn ar hyn o bryd, a gobeithio y bydd genym fanylion pellach yng nghyfarfod Mawrth. Hoffem gael llun newydd ar gyfer clawr y llyfr Cymraeg.

Os oes gennych lun da o bobl yn y mynyddoedd yn yr haf efallai y gellid ei ddefnyddio ar gyfer y clawr. Cysylltwch â bmccymruwales@live.co.uk. Cewch lyfr am ddim a chydabyddir eich cyfraniad. Anfonwch eich lluniau erbyn 15fed Mawrth os gwelwch yn dda.

Swyddog Cyngor Mynydda Prydain i Gymru

Roeddwn i gyflwyno'r achos o blaid swyddog (unwaith eto) yn y cyfarfod hwn.

Yn anffodus aeth yr amser yn drech na hyn hefyd, Ers hynny rwyf wedi cael cyfarfod arall gyda Thrysorydd Cyngor Mynydda Prydain, Cadeirydd y Pwyllgor Mynediad a Chadwraeth ac un o is-lywyddion Cyngor Mynydda Prydain.

Teimlad y cyfarfod hwnnw oedd y byddai'n well i BMC benodi trydydd Swyddog Mynediad a Chadwraeth, person sydd yn rhugl yn y Gymraeg, yn hytrach na Swyddog Cyngor Mynydda Prydain yng Nghymru.

Mae dadleuon o blaid ac yn erbyn y syniad hwn ac mae angen i mi drafod y mater yn y cyfarfod nesaf er mwyn canfod beth yw teimladau'r aelodau cyn y mi fynd i'r Cyngor Cenedlaethol nesaf.

Angen Gwybodaeth am Ddringfeydd Newydd

Mae Pat Littlejohn yn casglu manylion am ddringfeydd newydd ym Mhen Llŷn ar gyfer

atodiad (60+ o ddringfeydd newydd hyd yma) ac fe hoffai glywed gan unrhyw un sydd wedi canfod dringfa newydd neu sydd â sylwadau am rai presennol. Mae'n gobeithio ei orffen y gwanwyn hwn. Anfoner at patlittlejohn@alpin-ism.com.



Arweinlyfr Nesaf Tremadog

Mae'r gwaith ar y gweill ar hwn gan Glwb y Dringwyr. Mae cyfle eto i chi anfon sylwadau am lwybrau:

<http://www.tremadog.wetpaint.com>

Dringo gydag offer ar gyfer rhew yn y Chwareli

Beth yw eich barn? Lluniwyd un ddringfa eisoes ond a fydd eraill yn ei dilyn? A yw hyn yn beth da? Mynegwch eich barn yn y cyfarfod nesaf neu anfonwch ebost at:

bmccymruwales@live.co.uk neu ymunwch â'r drafodaeth ar <http://slate.wetpaint.com>

Yr Eisteddfod Genedlaethol

Yn Awst bydd BMC Cymru'n rhannu stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala. Bydd y stondin yn cael ei rhannu gan Glwb Mynydda Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Hyfforddi Mynydda, Hyfforddi Arweinwyr Mynydda Cymru a Phartneriaeth Awyr Agored Gogledd Orllewin Cymru. Rydym yn gobeithio cael peth nawdd hefyd. Bydd angen help siaradwyr Cymraeg. Mae angen dringwyr a cherddwyr i roi amser ar y stondin. Byddai hefyd o gymorth pe bai rhywun o BMC Cymru'n dod ymlaen i helpu i gydlynu'r trefniadau.

Rydym yn chwilio hefyd am ddeunydd ar gyfer y cylchgrawn Summit; tybed a oes gan rywun erthygl, gyda llun, am ddringo yn ardal y Bala. Edrychwn ymlaen at glywed gennych: bmccymruwales@live.co.uk

HYFFORDDI ARWEINWYR MYNYDD CYMRU (MLTW)

Mae Andy Boorman yn parhau i fynychu'r cyfarfodydd hyn ar ein rhan. Y mater mawr dan sylw ar gyfer Hyfforddi Arweinwyr Mynydda Cymru yw penodi swyddog datblygu yn Ebrill. Ni fydd y swydd hon yn gysylltiedig â Chyngor Mynydda Prydain

Partneriaeth Awyr Agored Gogledd Orllewin Cymru (NWWOP)

Mae'r sefydliad hwn yn dal i fynd o nerth i nerth, maent wedi derbyn arian ar gyfer y tair blynedd nesaf, maent yn rheoli 26 o glybiau newydd, mae ganddynt fwy na 200 o bobl yn dymuno ennill cymwysterau ar-

wain, mae ganddynt 17 o Arweinwyr Mynydd (Haf) dan hyfforddiant, sydd wedi cael hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg a 4 sydd wedi llwyddo yn eu hasesiad yn ddiweddar, hwythau hefyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Maent wedi bod mor llwyddianus fel bod Cyngor Chwaraeon Cymru'n ystyried creu Partneriaeth Awyr Agored De Ddwyrain Cymru.

Ein cynrychiolydd newydd ar MLTUK: Mark 'Baggy' Richards

"Rwyf am fy nghyflwyno fy hun i'r rhai ohonoch nad ydych yn fy adnabod Pam? Wel, cefais fy ethol yn y Cyfarfod Blyneddol Cyffredinol diwethaf i gynrychioli BMC Cymru ar Fwrdd Hyfforddi Arweinwyr Mynydd y DU(MLTUK).

Rwyf yn ddringwr ers oddeutu 30 o flynyddoedd, haf a gaeaf a thu hwnt. Rwyf yn dal yn ddringwr cyson ac yn byw ger Llanberis.

Ers canol y 90au rwyf yn gweithio fel hyfforddwr mynydda / dringo. Rwyf ar hyn o bryd yn rheoli canolfan addysg awyr agored o'r enw Blue Peris ger Chwael y Bus Stop, sydd yn cael ei rhedeg gan Gyngor Swydd Bedford. Mae gen i nifer o gymwysterau awyr agored ac felly rwyf yn ymwybodol o gynlluniau Byrddau'r DU. Yn ogystal â hynny rwyf wedi cyflwyno a chyfarwyddo llawer o gymwysterau Cyrff Rheoli Cenedlaethol yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf.

Mae fy nghanolfan yn cynnwys cyrsiau Cymwysterau Arweinydd Mynydd a Dringen Sengl ac Arweinydd Grŵp Cerdded Mynydd felly mae fy ngwybodaeth yn dal yn gyfredol. Dymanaf gyfleu eich barn gystal

ag y medraf ac felly rwyf yn awyddus i glywed gennych. Mae croeso i chi anfon e-bost ataf:

markrichards475@btinternet.com. Os byddwch yn dymuno cael gwybod mwy am y cymwysterau cysylltwch â mi.

Mae bwrdd y DU yn cynnal 4 cyfarfod y flwyddyn. Dyma ddyddiadau cyfarfodydd 2009: Mawrth 7fed, Mai 9fed, Medi 19eg a Thachwedd 21ain. Gwnaf fy ngorau i ofalu y cewch wybod mewn taflen leol am yr hyn a ddigwyddodd ym mhob un o'r cyfarfodydd a bod yn bresennol mewn cyfarfodydd lleol. Serch hynny ni fedraf fynd i'r cyfarfod ar y 3ydd Mawrth gan y byddaf i fwrdd yn gweithio. Diolch
Mark 'Baggy' Richards"

Adroddiad yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth Mynyddoedd

Cyfarfu'r Ymddiriedolaeth yn swyddfeydd Cyngor Mynydda Prydain ddydd Gwener, 12fed Rhagfyr ond roedd nifer o aelodau'r Ymddiriedolaeth yn methu â bod yn bresennol.

Llwyddwyd i sicrhau swydd archifydd yr Ymddiriedolaeth yn sgil grant o £15 mil gan Gyngor Mynydda Prydain ar gyfer y flwyddyn i ddod a grantiau cyffelyb eraill yn amodol ar gynllun busnes addas. Yn y cyfarnas mae'r Ymddiriedolaeth yn aros am ymateb Cronfa Treftadaeth y Loteri i'w cais am arian. Mae Prifysgol Cumbria wedi cytuno i dderbyn yr holl eitemau sydd yng ngofal yr Ymddiriedolaeth i'w storio mewn modd priodol.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth restr o enwogion o'r Oes Aur hyd y presennol, ac fe hoffai wneud ymchwil iddynt pan fydd

adnoddau ar gael. Felly os ydych yn drydydd nith neu nai drwy briodas i rywun a oedd yn fynyddwr o fri ar un adeg fe hoffem glywed gennych.

Diwrnod hwyl Cyngor Mynydda Prydain (FUNdamentals)

Os ydych yn ymwneud â hyfforddi pobl ifanc a datblygu eu rhaglenni hyfforddi efallai y bydd gennych ddiddordeb yn y diwrnod hwyl (BMC FUNdamentals) a gynhelir ym Mhlas y Brenin ar yr 28ain Mawrth.

Tynnu bollt yn Llanymynech

Er bod Llanymynech ar y ffin â Lloegr rydym wedi sôn am fateirion yno o'r blaen. Roedd y rhan fwyaf o 2008 yn ymwneud â retro-folltio ar y clogwyn hwn a chafodd hyn dderbyniad a chefnogaeth eang ond yn ystod yr hydref aeth dringwr ifanc i fyny Black is Beautiful, ar y Wal Ddu, heb ddefnyddio'r follt ac yna ei thynnu.

Bu trafodaeth ddiddorol iawn ar UKC (retro-dorri bolltau) am foeseg tynnu bollt. Yn amlwg mae'r ddringfa bellach yn un gradd E, sydd yn galetach ond yn ddiogel. Mae un wal yn Llanymynech sydd yn ddi-follt ac yn cyd-fynd â'r holl retro-folltio a fu'n digwydd yno. A ddylai BMC Cymru fynegi barn?

Cynghrair Gogledd Cymru i Ddylanwadu ar Reolaeth Oddi ar y Ffordd



Cynhaliwyd cyfarfod o Gynghrair Gogledd Cymru i Ddylanwadu ar Reolaeth Oddi ar y Ffordd, NWAIMOR, ei gyfarfod cyntaf ym Mhlas y Brenin ddydd Iau, Ionawr 9fed.

Trafodwyd nifer o faterion yn y cyfarfod gan gynnwys blaenoriaethu tasgau sydd i'w cyflawni yn ystod y 12 mis nesaf er mwyn meistrolï'r hyn a ddaeth yn broblem gynyddol dros y blynyddoedd diwethaf mewn llawer ardal.

Roedd clywed am yr holl sydd wedi cael ei wneud yn ystod y 12 mis diwethaf yn galonogol iawn gan fod llawer o gynnydd wedi ei wneud ar nifer o faterion. Un enghraifft oedd bod un o'r prif broblemau o gwmpas Tanygrisiau lle mae llawer o yrru cerbydau modur oddi ar y ffordd wedi arwain at lawer o erydu yn y gorffennol ond aeth yr heddlu i'r afael â'r broblem. Felly ar hyn o bryd mae pethau'n edrych yn well. Rwyf yn deall hefyd bod mwy o weithredu'n debygol gan yr heddlu yn y dyfodol.

Mae ffurflenni ar gael i hysbysu am ddigwyddiadau, ar ffurf papur neu e-bost, a chofiwch y bydd mwy o debygrwydd y gwneir rhywbeth ynghylch y broblem os bydd yr heddlu'n derbyn digon o gwynion. (Os bydd arnoch angen ffurflen/ffurflenni anfonwch e-bost at bmccymruwales@live.co.uk a medrwn anfon rhai atoch, neu medrwn eu lawrlwytho o safle Eryri-Bywiol <http://tiny.cc/zYMc9>)

Un o'r prif broblemau sydd yn wynebu NWAIMOR yw prinder arian, yn arbennig gan mai aflwyddiannus fu'r cais yn ddiweddar i'r Ymddiriedolaeth Mynediad a Chadwraeth (ACT) gan yr ymddengys bod angen i'r cais fod am arian ar gyfer pro-

siectau cadwraeth ac nid rhywbeth generig drwy'r ardal gyfan.

Trafodwyd ffynonellau eraill posibl o arian ac mae'n bosibl iawn y bydd arian ar gael ond bod angen amser i ystyried y posibilïadau. Yna edrychodd y rhai oedd yn bresennol ar 'daf-len' am fynediad i feicwyr oddi ar y ffordd yng Nghwm Elan, a'r posibilrwydd o'i haddasu i'w gwneud yn berthnasol drwy Gymru. Daeth y cyfarfod i ben gyda'r wybodaeth ddiweddaraf o ogledd ddwyrain Cymru a Sir Ddinbych lle mae cerbydau 4X4 a 'beiciau sgramblo' wedi bod yn broblem fawr ers rhai blynyddoedd, yn arbennig o gwmpas Mynydd Llandysilio, Bwlch yr Oernant ac ochr ogleddol mynyddoedd y Berwyn.

Yr hyn oedd hefyd yn amlwg yn y cyfarfod oedd bod cerbydau oddi ar y ffordd yn broblem fawr hefyd yn ne a dwyrain Cymru ac wrth i'r problemau yn yr ardaloedd hynny gael eu lleddfu bydd y gyrrwyr yn dechrau defnyddio ardaloedd eraill yn agos atoch chi!

Mal Creasey

Diwrnod Gwaith Tremadog 10fed Ionawr

Daeth tîm bach, ond tîm effeithiol iawn serch hynny, ynghyd i Gaffi Eric un bore tywyll a diflas. Aethom ati i ganfod y llwybrau gorau i ddynesu at ddringfeydd ar Fwlch y Moch gan gychwyn ar y gwaith o'u gwella. Gwnaed gwaith gwych ar y prif lwybr dynesu sef y Cyri Nadolig drwy'r coed. Roedd y llwybr hwn yn dechrau mynd â'i ben iddo a dyna un rheswm (ar wahân i'r ffaith bod pobl yn mynd ar goll) pam bod cymaint o fân lwybrau drwy'r coed dan y clogwyn.

Penderfynwyd felly mai da o beth fyddai gwella'r llwybr hwnnw er mwyn iddo fod yn llwybr amlwg tuag at y graig. Gwnaed gwaith gwych ar y llwybr yn arbennig gan Mills Davis ac Elfyn Jones. Hwn yw'r llwybr gorau i ddynesu drwy'r coed at yr holl ddringfeydd rhwng Grasper a G String. Pan wneir mwy o waith bydd y llwybr yn glir oherwydd bydd coed wedi eu cwmpo a'r mân lwybrau eraill drwy'r coed wedi eu cau.



Prosiectau eraill y cychwynwyd arnynt ond sydd yn aros am waith cwmpo coed i fod yn gwbl effeithiol yw'r llwybr dynesu o'r enw Valerie's Rib lle mae angen cwmpo coed i gau llwybrau nad ydynt yn rhai iawn ac i sefydlogi'r tir dan Rio.

Bydd y gwaith ar y prosiectau hyn yn parhau gan grŵp bach o bobl leol. Os gall unrhyw un gynnig help ar wahanol adegau a wnewch chi gysylltu â bmccymruwales@live.co.uk? Bydd angen help i symud coed wedi iddynt gael eu cwmpo. Mike Raine

Y Newyddion Diweddaraf am Gronfa Bolltau Gogledd Cymru

Bu gostyngiad yn 2008 yn y nifer o folltau a adnewyddwyd a hynny'n bennaf oherwydd dau beth; roedd llawer o'r dringfeydd llechi wedi cael eu dosbarthu yn

2007 gan y ddau Mark a'r tîm o weithredwyr lleol yn Llanberis, ac yn ail problemau gyda 'bolltau safon forol' sydd fwy neu lai wedi rhoi stop ar adnewyddu ar y calchfaen ar hyd glan y môr. Mae swyddog technegol Cyngor Mynydda Prydain yn ymchwilio i'r mater hwn.

Ynglŷn ag archwiliadau Cyngor Mynydda Prydain ym Mhen Trwyn, archwiliwyd manau gostwng y mwyafrif o'r dringfeydd poblogaidd uwchlaw'r ffordd a gosodwyd dolenni a chylchoedd i gadw'r folllt rhag cael gormod o draul gan y rhaffau. Os dowch ar draws man gostwng lle nad oes cylchoedd mae'n golygu nad oes archwiliad wedi ei gwblhau arno. Mae'r cynnydd yng ngwerth yr Euro o'i gymharu â'r Bunt a chynnydd ym mhreis dur gwrthstaen wedi arwain at gynydd sylweddol ym mhreis crogfachau a bolltau. Mae crogfach yn costio £2.50 erbyn hyn o gymharu â £1.57 y llynedd – mae angen mwy o gyfraniadau. Mae TOTAL ACCESS, sef cwmni mynediad gyda rhaffau o swydd Stafford, yn dal i roi help technegol hael ac maent hefyd wedi cyflwyno rhaff abseilio. MAE ANGEN MWY O AMSER GAN WIRFODDOLWYR - i osod bolltau newydd. Does dim disgwyl i follltau a osodwyd yn y 70au fod yn iawn am byth! Cysylltwch â bmccymruwales@live.co.uk.

Os nad oes gennych amser gal-lech gyfrannu cyflog diwrnod. Byddai cyflog meddyg yn prynu 3 neu 4 diwrnod o waith proffesiynol yn gosod bolltau. Byddai gweithiwr proffesiynol yn gwneud cymaint o waith ag a wnâi gwirfoddolwyr mewn 6 - 8 niwrnod. Bydd y gwaith yn sicrhau dringfeydd diogelach i chi a'ch cyfeillion a'ch plant i'w

dringo am ddeng mlynedd ar hugain neu fwy!

MAE ANGEN MWY O ARIAN – CYFRANNWCH YN HAEL – daw £4.50 o'r gronfa am bob bollt resin, heb gynnwys pris yr offer a phethau eraill angenrheidiol. DOES DIM RHAID I CHI FOD YN BYW YNG NGOGLEDD CYMRU I HELPU NEU GYFRANNU.

Y Mesur Mynediad i'r Môr a'r Arfordir

Cyflwynwyd Y Mesur Mynediad i'r Môr a'r Arfordir yn Nhŷ'r Arglwyddi ar y 5ed Rhagfyr. Mae'r Mesur yn cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer moroedd, ar sail cynllunio gofodol morol sydd yn cadw cytbwysedd rhwng gofynion o ran ynni ac adnoddau a chadwraeth.

Yr hyn sydd yn bwysig i Gyngor Mynydda Prydain yw y bydd y Mesur yn ei gwneud yn bosibl i greu a rheoli llwybr gan godi arwyddion o amgylch holl arfordir Lloegr gyda manau i grwydro megis traethau, twyni a chlogwyni. Yn gyffredinol lle gwneir newidiadau neu lle mae pwerau newydd yn cael eu creu yn Lloegr fe wneir newidiadau neu bwerau newydd cyffelyb yng Nghymru.

Mewn ardaloedd lle mae'r newidiadau hyn yn gyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru, mater iddyn nhw fydd penderfynu sut i ddefnyddio'r pwerau. Serch hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi eisoes na fydd yn dilyn y ddeddfwriaeth newydd ar fyndiad i'r arfordir a amlinellwyd ar gyfer Lloegr gan eu bod eisoes wedi ymrwymo i wella mynediad at yr arfordir yn sgil gwelliannau i'r isadeiledd wrth i Lwybr Arfordirol Cymru Gyfan agor.

Yn hytrach mae adran 300 o'r Mesur Mynediad i'r Môr a'r Arfordir yn amlinellu pwerau fframwaith i Gymru i ganiatáu i fesurau gael eu dwyn gerbron i ychwanegu at lwybr Cymru Gyfan pan welir yn dda i wneud hynny.

Golyga hyn bod dull statudol ehangach o ymdrin â mynediad i'r arfordir yng Nghymru'n annhebygol o gael ei weithredu rhwng hyn a 2011 dan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel y mae ar hyn o bryd. Bydd Cyngor Mynydda Prydain yn dal i bwysu ar y Gweinidog a phawb sydd yn ymwneud â hyn i ddatblygu pwerau fframwaith mor fuan ag y bo modd fel y gellir eu sefydlu ar yr un pryd â'r rhai yn Lloegr. Cath Flitcroft

Antur

Yn Nhachwedd cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o Antur, sef cyhoeddiad ar ffurf newyddlen am ddim ar gyfer y sector awyr agored. Mae'n derbyn cefnogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Eryri Bywiol a'r bwriad cychwynnol yw cyhoeddi tri rhifyn y flwyddyn. Mae mwy o wybodaeth amdano, ynghyd â chyfle i fod ar y rhestr bostio, ar wefan Eryri Bywiol: www.eryri-bywiol.com

Green Guide to the Uplands gan Gyngor Mynydda Prydain

Mae Cyngor Mynydda Prydain wedi cyhoeddi *Green Guide to the Uplands*, sef canllawiau arferion da ar gyfer cerddwyr, dringwyr a mynyddwyr.

Mae'r llyfryn yn cynnwys gwybodaeth angenrheidiol am amgylchfyd y mynyddoedd a sut y gall aelodau'r Cyngor Mynydda wneud eu gorau i ofalu am dir-

lun bregus y mynydd-dir. Mae'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol am fynediad, cadwraeth, cerdded bryniau, dringo, sgramblo a mynydda yn y gaeaf yn ogystal â chynghorion manylach am lanweithdra, cludiant, gwersylla a defnydd cynaliadwy o glogwyni, gan nodi arferion da ar gyfer grwpiau sydd yn ymweld â'r clogwyni.

Y gobaith yw y bydd y llyfryn yn cael defnydd helaeth gan bobl sydd yn ymweld â'r awyr agored. Mae'r *Green Guide to the Uplands* yn egluro'n fanwl beth sydd yn effeithio ar yr amgylchedd mynyddig ac yn cynnig cynghorion i ni i gyd ynglŷn â sut y gallwn fod yn rhan o'r ateb i'r broblem a lleihau ein heffaith. Mae'n llawn o gynghorion a fydd yn gwneud eich ymweliad â chlogwyn neu fynydd yn wyrddach – fedrwn chi ddim fforddio ei anwybyddu.

Os am gopi o'r *Green Guide* edrychwch ar <http://www.thebmc.co.uk/Downloads.aspx?category=1>
Cath Flitcroft

Lledaenu'r gair

Os mai'n electronig yr ydych wedi derbyn y cylchlythyr hwn anfonwch ef ymlaen at rywun arall sydd â diddordeb. Mae croeso i chi ei argraffu a'i arddangos mewn man priodol. Os ydych yn darllen copi caled ac yn dymuno tanysgrifio cysylltwch â ni yn bmccymruwales@live.co.uk. Os nad oes newydd o'ch 'cornel' chi o Gymru ynddo anfonwch rywbeth erbyn y rhifyn nesaf. Chi fydd yn medru ei wneud yn gylchlythyr difyr!



CÔD CREIGIAU
www.thebmc.co.uk

Mynediad Gwiriwch y gronfa-ddata mynediad rhanbarthol (RAD) ar www.thebmc.co.uk am y gwybodaeth diweddaraf ynglun â mynediad

Parcio Parciwch yn ofalus gan osgoi giatiau a thramwyfeydd

Llwybrau Cadwch at y llwybrau sydd wedi'u sefydlogi. Gadwch giatiau fel 'rydych yn eu ffeindio

Peryglon Gall dringo fod yn beryglus-derbyniwch y peryglon a byddwch yn ymwybodol o bobl eraill o'ch cwmpas

Parch Grwpiau ac unigolion- parchwch y graig, moeseg dringo lleol a phobl eraill

Bywyd gwyllt Peidiwch darfu ar da byw, anifeiliaid gwyllt, neu llystyfiant ar y clogwyni; parchwch gyfyngiadau tymhorol nythu adar

Cŵn Cadwch cŵn o dan rheolaeth ar bob achlysur; peidiwch gadael eich ci hel defaid neu darfu ar bywyd gwyllt

Sbwriel Peidiwch gadael olion – cymrwch eich sbwriel i gyd adref gyda chi

Tai bâch Peidiwch gwneud llanast – claddwch eich gwastraff

Economi Gwnewch popeth a fedrwnch i gefnogi'r economi gwledig-prynnwch yn lleol

Datganiad cyfranogaeth y BMC — mae dringo, cerdded bryniau a mynydda yn weithgareddau gyda perygl o niwed personol neu marwolaeth. Dylai cyfrannogion yn y gweithgareddau yma fod yn ymwybodol o'r peryglon ac yn fodlon eu derbyn, a dylent fod yn gyfrifiol am eu gweithredau a'u cysylltiad.